# Gwybodaeth i Blant a Phobl Ifanc am y Llys Teulu



Weithiau, ni fydd Rhieni neu Ofalwyr yn gallu cytuno ar bethau fel ble y dylet ti fyw, pwy y dylet ti ei weld, pa mor aml a beth sydd orau i ti. Mae hyn yn gyffredin iawn, ac mae angen i ti wybod nad oes unrhyw fai arnat ti. Mae'r Llys Teulu yno i dy helpu di a dy deulu drwy'r profiad newydd hwn, felly does dim angen i ti fod yn bryderus nac yn ofnus.

## Cwestiynau a allai fod gen ti

*Rydyn ni'n deall y gallai fod gen ti rai cwestiynau, felly rydyn ni wedi ceisio ateb rhai o'r cwestiynau hyn isod.*

**Beth yw Llys Teulu?**

Mewn Llys Teulu, bydd barnwr yn helpu teuluoedd i wneud penderfyniadau am beth sydd orau i blant.

**Pam ydw i wedi cael y wybodaeth hon?**



Mae rhywun sy'n rhan o dy deulu wedi gofyn i'r Llys Teulu am help i wneud penderfyniad amdanat ti a dy deulu. Rwyt ti'n rhan bwysig o'r broses hon, ac mae dy lais, dy farn a dy deimladau yn bwysig iawn. Bydd y bobl a fydd yn gweithio gyda ti yn gwneud yn siŵr eu bod yn dod i dy adnabod di a'u bod yn deall beth sy'n digwydd i ti a beth rwyt ti am iddo ddigwydd.

## Pwy yw'r bobl yma, a sut fyddan nhw'n helpu?

*Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n bosibl y byddi di'n cael llawer o gymorth gan wahanol bobl. Rydyn ni'n deall y gall fod yn ddryslyd. Dyma'r bobl a fydd yn dy helpu di a dy deulu.*

**Barnwr neu Ynad**

Barnwr neu ynad yw'r person sy'n gwneud y penderfyniadau amdanat ti a dy deulu. Bydd yn gwrando'n ofalus iawn ar bopeth sy'n cael ei ddweud ac yn gwneud y penderfyniad gorau i ti. Y person hwn fydd yn cael y gair olaf a bydd bob amser yn gwneud yn siŵr dy fod yn ddiogel. Os hoffet ti gwrdd â'r barnwr neu'r ynad, gelli di ofyn am gael gwneud hynny.

**Cynghorydd Llys Teulu**

Mae cynghorwyr llys teulu yn gweithio i sefydliad o'r enw Cafcass Cymru. Maen nhw'n gweithio gyda'r Llys Teulu ac maen nhw wedi cael hyfforddiant i weithio gyda phobl ifanc fel ti. Gwaith cynghorwyr llys teulu yw rhoi gwybod dy farn i'r llys. Byddan nhw'n gwrando ar bopeth sydd gen ti i'w ddweud ac yn dweud wrth y barnwr beth sydd orau i ti, yn eu barn nhw. Byddan nhw'n gwneud yn siŵr bod y barnwr neu'r ynad yn clywed dy farn a dy ddymuniadau a byddan nhw'n ysgrifennu adroddiad i'r llys, o'r enw'r **Adroddiad ar yr Effaith ar y Plentyn**. Mae hwn yn adroddiad arbennig sy'n cael ei ysgrifennu i'r llys.

**Gweithiwr Cymdeithasol**

Os yw teuluoedd wedi gweithio gyda gweithwyr cymdeithasol o'r blaen, mae'n bosibl y bydd gweithiwr cymdeithasol o'r ardal leol yn ysgrifennu'r adroddiad yn lle Cafcass Cymru. Bydd yn edrych ar beth sydd wedi bod yn digwydd yn dy deulu ac yn gwneud yn siŵr dy fod yn ddiogel.



# Beth sy'n digwydd yn y Llys

### Ysgrifennu Adroddiad ar yr Effaith ar y Plentyn

1

*Er mwyn i'r Llysoedd Teulu wneud penderfyniadau da, mae angen iddyn nhw ddeall dy fywyd di a bywyd dy deulu.*

*Er mwyn helpu'r llys i ddeall y sefyllfa'n well, bydd yn gofyn i gynghorydd llys teulu neu weithiwr cymdeithasol ysgrifennu rhywbeth o'r enw Adroddiad ar yr Effaith ar y Plentyn. Bydd y cynghorydd llys teulu neu'r gweithiwr cymdeithasol yn siarad â dy rieni neu dy ofalwyr. Byddan nhw fel arfer yn trefnu i siarad â ti am dy sefyllfa hefyd. Byddan nhw'n treulio amser yn dod i dy adnabod. Byddan nhw'n gofyn cwestiynau i ti am dy ddymuniadau a dy deimladau. Does dim angen i ti boeni am hyn, maen nhw am gael y gorau i ti. Gelli di ofyn cymaint o gwestiynau ag yr wyt ti am eu gofyn. Gelli di siarad â nhw am sut yr hoffet ti iddyn nhw rannu dy farn â'r llys.*

2

### Gwrandawiadau Llys

*Cyfarfod sy'n cael ei gynnal yn y llys gyda dy rieni neu dy ofalwyr a'r barnwr neu'r ynadon yw Gwrandawiad Llys. Cyn y cyfarfod hwn, bydd pawb wedi darllen dy Adroddiad ar yr Effaith ar y Plentyn. Os byddi di am wneud hynny, gelli di hefyd anfon llythyr at y barnwr neu dynnu llun i'r barnwr yn esbonio beth hoffet ti iddo ddigwydd. Mae'n bosibl na fydd y barnwr neu'r ynad yn gwneud yn union beth rwyt ti wedi gofyn iddo ei wneud. Mae hynny oherwydd bod yn rhaid i'r barnwr neu'r ynad wrando ar bawb sy'n rhan o'r broses a cheisio gwneud penderfyniadau am beth sydd orau i ti. Ond, bydd bob amser yn gwrando ar beth sydd gen ti i'w ddweud ac yn ei gymryd o ddifrif.*

*Mae'n bosibl y bydd pethau'n cael eu datrys yn ystod y gwrandawiad cyntaf neu efallai y bydd angen cynnal mwy nag un gwrandawiad. Gall y broses deimlo fel proses hir, ond mae'n bwysig gwneud yn siŵr dy fod ti'n ddiogel a bod y llys yn gwneud y penderfyniad gorau posibl.*

3

### Y Penderfyniad Terfynol

*Ar ôl i'r llys edrych ar bopeth yn ofalus, bydd penderfyniad yn cael ei wneud. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei ysgrifennu mewn rhywbeth o'r enw gorchymyn llys. Bydd y llys yn penderfynu pwy ddylai ddweud wrthyt ti am y penderfyniad. Os bydd y llys yn gofyn am hynny, mae'n bosibl y bydd dy gynghorydd llys teulu neu dy weithiwr cymdeithasol yn cysylltu â dy deulu rywbryd ar ôl gwneud y gorchymyn hwn er mwyn gwneud yn siŵr dy fod ti'n iawn a bod pawb yn ddiogel.*

*Os bydd dy deulu wedi bod mewn Llys Teulu o'r blaen, mae'n bosibl y byddi di'n sylwi bod pethau wedi newid rhywfaint. Mae hynny oherwydd bod y Llys Teulu bob amser yn gweithio'n galed i wrando ar blant a'u teuluoedd ac i wella pethau. Os wyt ti'n credu y gallai rhywbeth fod wedi cael ei wneud yn wahanol i wella pethau i ti, cofia ddweud hynny wrth dy gynghorydd llys teulu neu dy weithiwr cymdeithasol er mwyn gwneud yn siŵr y gall y Llys barhau i wella'r profiad i blant.*





## ***Ble gelli di gael cymorth?***

*Rydyn ni'n deall y gall y cyfnod hwn fod yn gyfnod pryderus i ti. Rwyt ti'n haeddu gallu cael cymorth ar unrhyw adeg ac mae llawer o bobl yno i dy helpu.*

### Oedolyn y gelli di ymddiried ynddo

Mae pob math o bobl y tu allan i'r llys a all dy helpu; gallai hynny fod yn athro, yn aelod o'r teulu neu'n ffrind i'r teulu. Maen nhw'n bobl wych i ofyn cwestiynau iddyn nhw ac yn barod i dy helpu.

### Childline

Os bydd angen help ychwanegol arnat ti, gelli di gysylltu â Childline. Gelli di gysylltu ag unrhyw bryder, mawr neu fach. Maen nhw ar gael bob awr o'r dydd ac yn gallu helpu mewn unrhyw sefyllfa. **Dros y ffôn: 0800 1111 Gwefan: www.childline.org.uk**

Os wyt ti'n byw yng Nghymru, mae rhagor o ffynonellau cymorth ar wefan Cafcass Cymru

### Young Minds

Yn cynnig gwybodaeth i bobl ifanc a phlant am iechyd meddwl a llesiant emosiynol. Angen siarad? Mae sefydliadau ar gael sy'n gwrando, a chymorth ar-lein.

*Cofia y gelli di hefyd siarad â dy weithiwr cymdeithasol, dy gynghorydd llys teulu, dy deulu a dy ffrindiau. Gall hwn fod yn adeg anodd iawn i ti, ond **dwyt ti ddim ar dy ben dy hun**, ac mae pobl yno i dy helpu di.*





Mae'r adnodd hwn wedi cael ei greu gan aelodau o'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant.